## Saffari Bywyd Gwyllt Aberdaron

Dros y blynyddoedd mae eithin wedi dechrau dominyddu rhostiroedd yr ardal, ond fel rhan o waith adfer mae'n cael ei dorri yn ôl ac mae grug yn cael ei hadu. Gellir gweld y lleiniau lle mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ym Mychestyn wrth ddilyn y llwybr oren. Yn y tymor hir, y gobaith yw rheoli'r rhostir trwy ddulliau ffermio traddodiadol ac anifeiliaid pori.

Mae'r môr o amgylch Aberdaron wedi ei ddynodi yn Ardal Gadwraeth Arbennig. Yn ei ddyfnderoedd mae bywyd tanddwr anhygoel – coedwigoedd o môr-wiail, creigiau wedi eu gorchuddio gyda sbwng lliwgar a phob math o anifeiliaid fel octopws, pysgod, crancod a chimychiaid.

Mae'r clogwyni arfordirol a'r ynysoedd yn lefydd perffaith ar gyfer adar môr. Mae'r pâl yn byw ar Ynysoedd Gwylan ac mae adar drycin Manaw yn mudo o arfordir De America yn y gwanwyn i nythu mewn tyllau ar Enlli.

Edrychwch i lawr wrth eich traed ac efallai y dewch o hyd i rywogaethau prin fel y cor-rhosyn rhuddfannog neu'r cen aurwallt. Pen draw Llŷn yw'r unig le ar dir mawr Prydain lle mae'r corrhosyn yn tyfu ac unwaith yn unig yn ei fywyd mae'r planhigyn yn creu y blodau melyn hardd.

## Aberdaron Wildlife Safari

Over the years gorse has begun to dominate the heathlands, and as a part of an ongoing restoration project it's been cut back and sown with heather seeds. These cut and seeded plots can be seen at Bychestyn on the orange route. In the long term the hope is to manage the heathland with the help of traditional farming methods and grazing animals.

The sea around Aberdaron is designated as Special Area of Conservation and contains an amazing underwater world of kelp forests, rocks covered in colourful sponges and animals of all kinds from octopus and fish to large crabs and lobsters.

The coastal cliffs and the islands are perfect places for seabirds. Ynysoedd Gwylan are home to puffins, and Manx shearwaters migrate from the coast of South America in spring to breed in burrows on Enlli.

Look down at your feet and you may be lucky enough to come across rare species like the spotted rock rose or golden hair lichen. The tip of Llŷn is the only place on mainland Britain where the spotted rock rose grows and its pretty yellow flowers only appear once in its lifetime!

ecoamgueddfa

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020
Tionól Réigiúnach an Deiscirt
Southern Regional Assembly
Cláir Chistí Eorpacha Struchtúrtha agus Infheistíochta na hÉireann 2014–2020
Cómhaoinithe ag Rialtas na hÉireann agus ag an Aontas Eorpach
Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust
UCC
University College Cork, Ireland
Coláiste na hOllscoile Corcaigh
Prifysgol Bangor University
South Kerry Development Partnership CLG
Cyngor Gwynedd Council

# ecoamgueddfa

## Saffari Bywyd Gwyllt Aberdaron

## Aberdaron Wildlife Safari



www.ecomuseumlive.eu
www.ecoamgueddfa.org

# Y 5 Mawr!

## Brân Coesgoch

Mae dros hanner Brain Coesgoch y DU yn byw yng Nghymru ac mae'r cyfuniad o welltir a rhostir arfordirol ar gyfer bwydo, a chlogwyni creigiog ar gyfer nythu yn golygu bod Llŷn yn un o'r llefydd gorau i'w gweld. Mae eu pig a'u coesau coch yn ffordd syml o'u gwahaniaethu o frain cyffredin ac mae eu galwad 'ci-aw' yn hawdd i'w adnabod. Gellwch eu gweld yn troelli uwchben y clogwyni neu yn chwilio am bryfetach i'w bwyta yn y llystyfiant byr.

## Morloi Llwyd

Er bod y Morlo Llwyd yn un o'r rhywogaethau morlo mwyaf prin yn y byd (mae 40% o forloi llwyd y byd yn y DU) gellwch eu gweld yn aml o amgylch arfordir Aberdaron. Eu hoff lefydd i lusgo eu hunain allan o'r môr yw brigiadiau a'r traethau creigiog ac ogofau arfordirol – y rhai mwyaf diarffordd yw'r ffefrynnau. Mae'r moroedd cyfoethog o amgylch Llŷn yn cynnig digon o bysgod i'r morloi fwyta a gallant blymio i ddyfnderoedd o 300m i chwilio am bryd o fwyd.



Brân Coesgoch
Chough

## Hebog Tramor

Mae Hebogiaid Tramor yn hoffi ymgartrefu ar glogwyni creigiog arfordirol. Mae'r hebogiaid trawiadol yma gyda'u brest smotiog a'u mwstas du amlwg wedi ymgartrefu ar y clogwyni rhwng Aberdaron a Mynydd Mawr. Maent yn un o'r anifeiliaid cyflymaf yn y byd, a gallant gyrraedd cyflymder o 120 milltir yr awr wrth hela. Maent yn plymio i lawr yn gyflym iawn i gipio adar llai yn eu crafangau cyn rhoi'r ergyd farwol iddynt gyda'u pig.

## Llamhidydd

Mae Llamhidyddion yn greaduriaid swil; ni fyddwch yn eu gweld yn dilyn cychod neu neidio allan o'r dŵr fel dolffiniaid, ond os edrychwch allan i'r môr efallai y gwelwch chi eu hesgyll. Maent yn llai na dolffiniaid; mae ganddynt wyneb mwy fflat ac mae ymyl syth i'r esgyll cefn. Mae llamhidyddion yn bwyta pysgod ac yn defnyddio system ecoleoli i ddod o hyd i'w bwyd. Mae nhw'n gwneud sŵn 'clicio' ac yna yn gwrando ar yr eco er mwyn creu map sain o'u hamgylchedd cyn gwibio tuag at yr haid o bysgod. Efallai gwelwch chi famaliaid morol eraill sy'n ymweld â'r ardal hefyd fel dolffiniaid trwyn potel, neu ddolffiniaid Risso, dolffiniaid mawr sy'n hoffi dŵr dyfnach fel arfer.

## Ysgyfarnog

Mae chwedlau Cymraeg yn llawn o gyfeiriadau at Ysgyfarnogod, ond mae amaethyddiaeth dwys wedi cael effaith niweidiol arnynt dros y ganrif ddiwethaf. Serch hynny mae tir fferm yma yn Llŷn yn cynnig cymysgedd o gynefinoedd ac os ydych yn lwcus fe allech gael cip ar glustiau hir â blaen du yr ysgyfarnog. Maent yn fwy na chwningod ac mae eu coesau yn hirach. Gallant redeg yn gyflym iawn - hyd at 45 milltir yr awr i osgoi cael eu dal gan ysglyfaethwyr! Yn gynnar yn y bore, neu wrth iddi nosi yw'r adegau gorau i'w gweld, yn ystod y dydd maent yn aml yn swatio mewn tyllau bâs yn y tirwedd.



Llamhidydd
Porpoise



Hebog Tramor
Peregrine



Ysgyfarnog
Hare

# The Big 5!

## Chough

Over half the UK's population of Chough live in Wales. The combination of coastal grassland and heathland for feeding, and rocky cliffs for nesting, make the tip of Llŷn one of the best places to see them. Their red bills and legs are a simple way to distinguish choughs from crows and their distinctive 'kee-aw' call is easy to recognise. Spot them twisting and tumbling above the cliffs or searching for insects to eat in short vegetation.

## Grey Seal

Although Grey Seals are one of the rarest seal species in the world (the UK has 40% of the total population) they can regularly be spotted around the coast of Aberdaron. The seals' favourite haul out spots include rocky outcrops, rocky beaches and sea caves – the more secluded the better. The rich waters around Llŷn provide the seals with plenty of fish to eat and they can dive to up to 300m in search of a meal.

## Peregrine

Peregrines are often found along rocky sea cliffs, and this impressive falcon, with a spotted breast and an obvious black moustache, has made the cliffs between Aberdaron and Mynydd Mawr its home. They're one of the fastest animals on earth and can reach speeds of over 120 miles an hour when hunting. They swoop down at high speed to grab smaller birds in their talons before delivering a deadly blow with their beak.

## Porpoise

Porpoises are shy creatures; you won't see them riding the waves alongside boats or jumping out of the water like dolphins do, but scan the sea and you may see their fins. They're much smaller than dolphins with a flatter face and a straight edged dorsal fin. Porpoises eat fish and they search for their prey using echolocation, they emit clicks and listen to the echo to make a sound map of their surroundings and zoom in on the shoals of fish. You may also spot other marine mammals that visit the area such as bottle nose dolphins or the large Risso's dolphins which usually prefer deeper water.

## Hare

Welsh mythology contains numerous references to Hares, but intensive farming has had a significant impact on them over the last century. Luckily farmland on Llŷn contains a good mix of habitats and you may well spot a hare's long, black tipped ears. Hares are larger than rabbits and have longer legs, perfect for running at up to 45 miles per hour to avoid predators! Early mornings and evenings are the best times to spot hares as they often hunker down in forms (shallow depressions in the ground) during the day.



Morloi Llwyd
Grey Seal




Darlun gan Kim Atkinson / Art work by Kim Atkinson